**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwylllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 6 Hydref 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N Furlong | V A Holland | Y V Jardine |
| S Joy | P Lloyd | M W Locke |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Gwasanaeth |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Alec Dubens | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, P Downing, C L Philpott, B J Rowlands ac L V Walton

---

## 24 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd M W Locke gysylltiad personol â chofnod Rhif 28 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

## 25 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1 Medi 2023 yn gofnod cywir.

## 26 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 27 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am ganiatáu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat - KM.

Manylodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cefndir mewn perthynas â KM.

Esboniodd KM yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater ac atebodd gwestiynau’r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Gwrthod cais KM am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Rheswm dros y Penderfyniad

Nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod KM yn berson addas a phriodol na diogel ac addas. Ar ben hynny, nid oedd digon o dystiolaeth i wyro o'r arweiniad.

## 28 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat – MI.

Manylodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cefndir mewn perthynas ag MI.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MI yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater ac atebodd gwestiynau’r Aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Gwrthod cais MI am ganiatâd i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Rheswm dros y Penderfyniad

Nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod MI yn berson addas a phriodol na diogel ac addas. Ar ben hynny, nid oedd digon o dystiolaeth i wyro o'r arweiniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.58 am

**Cadeirydd**